

Polisi Euogfarnau Troseddol Heb eu Disbyddu (2020 - 2023)

Rhifyn	Gorffennaf 2020
Dyddiad Adolygu	Gorffennaf 2023
Awdur	Anne Pitman, Rheolwr Diogelu a Lles Dysgwyr
Lleoliad y Polisi	BIZ-Sharepoint/Intranet/Policies & Procedures/Learner Services & Support
Cymeradwywyd y Polisi gan:	Tîm Rheoli'r Coleg 24 Medi 2020

Os hoffech chi, neu rywun rydych yn ei adnabod, gael y ddogfen hon mewn print bras, tâp sain, yn electronig neu yn Saesneg, cysylltwch â:

Rheolwr Diogelu a Lles Dysgwyr: Anne Pitman
E-bost: anne.pitman@coleggwyrabertawe.ac.uk

1. Cyd-destun

Nod polisi Coleg Gŵyr Abertawe ar gofrestru myfyrwyr ag euogfarnau troseddol yw rhoi cyfle i ddarpar ddysgwyr wneud cais am gwrs priodol yng Ngholeg Gŵyr Abertawe, gan ystyried diogelwch Cymuned y Coleg ar yr un pryd.

Mae'r Coleg yn ymrwymedig i hyrwyddo amgylchedd sy'n ddiogel i weithio a dysgu ac mae ganddo ddyletswydd i amddiffyn ei fyfyrwyr, ei staff a'i ymwelwyr. Ar y sail hon, gofynnir i ymgeiswyr sy'n cofrestru i'r Coleg ddatgan euogfarnau troseddol.

Cwblhawyd y polisi gan ymgynghori ag: Uned Amddiffyn y Cyhoedd yr Heddlu (Abertawe), Gwasanaeth Troseddau Ieuencid (Abertawe), Gwasanaeth Prawf (Abertawe).

2. Cwmpas

Bydd y polisi'n berthnasol i bob dysgwr a phrentis amser llawn a rhan-amser sydd ag euogfarnau heb eu disbyddu (fel y'i diffinnir gan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr (1974) a'r Gorchymyn Eithriadau (1979) a chyda dysgwyr a phrentisiaid sydd ag euogfarnau wedi'u disbyddu, lle mae gofyn i'r dysgwr neu'r prentis gwblhau Cynllun Datgelu a Gwahardd (DBS) er mwyn mynychu lleoliad gwaith fel rhan o'i gwrs.

Mae'r polisi'n sicrhau y gofynnir i bob ymgeisydd ddatgelu a oes ganddo unrhyw euogfarnau heb eu disbyddu neu euogfarn wedi'i disbyddu lle mae gofyn i'r prentis gwblhau DBS er mwyn mynychu lleoliad gwaith fel rhan o'i gwrs/brentisiaeth. Gofynnir i'r rheini sy'n datgelu lenwi ffurflen Datgelu Euogfarnau Troseddol, sy'n rhoi manylion dyddiadau'r euogfarnau a'r math o euogfarn.

Nid oes angen i bobl ifanc sy'n ymwneud â phroses y Swyddfa sy'n derbyn 'gwarediadau nad ydynt yn droseddol' ddatgelu eu hymwneud â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuencid (YOS). Dim ond am fân droseddau o natur ddi-drais/nad ydynt yn rhywiol y rhoddir gwarediadau nad ydynt yn droseddol.

Yn dilyn y datgeliad euogfarnau troseddol, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd gwblhau asesiad risg gyda phanel o gynrychiolwyr o Goleg Gŵyr Abertawe ac unrhyw asiantaethau allanol priodol h.y. Swyddog Prawf neu Oruchwyliwr Troseddau Ieuencid yr ymgeisydd.

3. Datganiad Pwrpas

Pwrpas y polisi yw sicrhau bod unrhyw ddarpar fyfyrwr sydd â chofnod troseddol heb ei ddisbyddu neu euogfarn wedi'i disbyddu (lle bydd yn ofynnol i'r dysgwr gwblhau DBS, er mwyn mynychu lleoliad gwaith fel rhan o'u cwrs) yn cael pob cyfle i wneud cais am gwrs priodol yng Ngholeg Gŵyr Abertawe. Bydd y Coleg yn gweithio gyda'r unigolyn ac unrhyw asiantaethau cymorth (Goruchwyliwr Troseddau Ieuencid, Swyddog Prawf ac ati), i sicrhau bod y cwrs a ddewisir yn briodol ac yn ddiogel i'r darpar ddysgwr a chymuned y Coleg. Edrychir ar bob maes wrth ystyried priodoldeb y cwrs gan gynnwys lefel yr oruchwyliaeth sydd ar gael i'r ymgeisydd ar y cwrs y maent am ymuno ag ef (os yw'n berthnasol) yn ogystal ag unrhyw gymorth sydd ar gael i gynorthwyo'r ymgeisydd i fod yn llwyddiannus ar y cwrs. (Cyfeiriwch at yr Asesiad Risg yn yr atodiad).

Gwneir pob ymdrech i gyfeirio llwybr dysgu amgen os bernir bod y cwrs gwreiddiol a ddewiswyd yn anniogel i'r ymgeisydd neu gymuned y Coleg, *ni waeth beth yw natur y drosedd*.

4. Corff y Polisi

Mae cofnod troseddol yn deillio o euogfarn. O dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr (1974) a'r Gorchymyn Eithriadau (1979) gellir ystyried bod unrhyw euogfarnau am drosedd wedi eu disbyddu ar yr amod:

- Nid oedd yr euogfarn yn cynnwys dedfryd a eithriwyd o'r Ddeddf, megis dedfryd o garchar o dros ddwy flynedd a hanner.
- Ni chafwyd unrhyw euogfarnau pellach o fewn cyfnod adsefydlu.

Pan fydd yr euogfarn wedi'i disbyddu, nid oes angen i'r unigolyn sydd wedi'i adsefydlu ddatgelu ei bodolaeth yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, **oni bai** ei fod yn ymwneud â rhai galwedigaethau penodol neu brofiad gwaith:

- Gweithio gyda phobl ifanc o dan 18 oed ac oedolion agored i niwed
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gweinyddu Cyfiawnder
- Proffesiynau sydd â diogelwch cyfreithiol, e.e. nyrsys, cyfreithwyr
- Diogelwch cenedlaethol
- Rhai cyrsiau hamdden

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.

5. Proses Asesu

Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd, amser llawn, rhan-amser a phrentisiaid nodi a oes ganddynt euogfarn heb ei disbyddu. Mae myfyrwyr amser llawn a phrentisiaid yn datgelu hyn ar y ffurflen gais, ac mae myfyrwyr rhan-amser yn datgelu hyn ar y ffurflen gofrestru. Gofynnir i ymgeiswyr sy'n datgan ar ffurflen gais amser llawn bod ganddynt euogfarn heb ei disbyddu, lenwi ffurflen Datgelu Cofnod Troseddol. Atgoffir ymgeiswyr unwaith, i roi gwybodaeth yn ymwneud â'u heuogfarn droseddol ar y ffurflen, a bydd ymgeiswyr sy'n methu ag ymateb yn cael eu hysbysu'n ysgrifenedig o friad y Coleg i dynnu eu cais yn ôl.

Bydd ymgeiswyr sy'n datgan ar y ffurflen gofrestru ran-amser bod ganddynt euogfarn heb ei disbyddu yn cael eu cofrestru dros dro ar y cwrs o'u dewis. Rhoddir copi o'r ffurflen gofrestru i'r Rheolwr Diogelu a Lles Dysgwr, a fydd yn ysgrifennu at y myfyriwr i ofyn iddo lenwi ffurflen Datgelu Cofnodion Troseddol, a fydd wedi'i hamgáu gyda'r llythyr. Bydd y llythyr yn nodi pa mor bwysig yw hi iddynt gwblhau'r weithdrefn hon cyn mynd i'w dosbarth cyntaf. Os nad yw myfyriwr yn cwblhau'r broses hon byddwn yn gofyn iddo adael y Coleg.

Os yw dysgwr yn dilyn cwrs sy'n gofyn am wiriad DBS oherwydd ei fod yn gorfod mynychu lleoliad gwaith, gofynnir i'r ymgeisydd ddatgelu yn y cyfweiliad i'r cwrs. Os bydd y DBS yn dangos bod ganddo euogfarn droseddol heb ei disbyddu neu wedi'i disbyddu nad yw'r dysgwr wedi'i ddatgelu yn y cyfweiliad i'r cwrs, bydd y dysgwr yn cael ei hysbysu bod angen iddo lenwi ffurflen Datgelu Cofnodion Troseddol (ffurflen GCS1). Hysbysir y dysgwr y bydd methu â chydymffurfio â'r broses hon yn golygu y bydd yn cael ei dynnu yn ôl o'r cwrs.

Bydd yr ymgeiswyr sy'n cofrestru ar noson neu ddiwrnod cyntaf dosbarth rhan-amser ac yn datgan bod ganddynt euogfarn, yn gymwys i fynd i'r dosbarth cofrestru. Rhoddir copi o'r ffurflen gofrestru i'r Rheolwr Diogelu a Lles Dysgwr, a fydd yn ysgrifennu at yr ymgeisydd i ofyn iddo lenwi ffurflen Datgelu Cofnodion Troseddol (ffurflen GCS1), a fydd wedi'i hamgáu gyda'r llythyr. Bydd y llythyr yn nodi pa mor bwysig yw hi iddynt gwblhau'r weithdrefn hon cyn mynd i'w dosbarth nesaf. Os nad yw myfyriwr yn cwblhau'r broses hon byddwn yn gofyn iddo adael y Coleg.

Gofynnir am dystlythyr yn ysgrifenedig gan Swyddog Prawf yr ymgeisydd, Goruchwyliwr Troseddau Ieuencid, neu asiantaeth ategol swyddogol briodol arall yn absenoldeb Swyddog Prawf neu Oruchwyliwr Troseddau Ieuencid. (Ffurflen YOS/PROB1).

Bydd asesiad risg yn cael ei gynnal gan ddefnyddio'r pro-forma asesu risg safonol (ffurflen GCS2) gan banel a fydd yn cynnwys:

- Y Rheolwr Diogelu a Lles Dysgwyr a;
- Y Rheolwr Maes Dysgu neu'r Rheolwr Maes Dysgu Cynorthwyol neu'r Rheolwr Dysgu Seiliedig ar Waith a;
- Yr Ymgeisydd a Swyddog Prawf yr Ymgeisydd neu'r Goruchwyliwr Troseddau Ieuencid neu asiantaeth ategol swyddogol briodol arall ar gyfer yr ymgeisydd.

Sylwch: Gwahoddir yr ymgeisydd i ddod i gyfarfod y panel, fodd bynnag, gofynnir iddo adael tra bydd y penderfyniad yn cael ei wneud. Hysbysir yr ymgeisydd yn ysgrifenedig o ganlyniad y panel.

Mewn rhai achosion (gyda chaniatâd yr ymgeisydd) bydd manylion yr euogfarn hefyd yn cael eu trafod ag Uned Amddiffyn y Cyhoedd yr Heddlu, y Gwasanaethau Cymdeithasol neu unrhyw bartneriaeth allanol arall sy'n cefnogi'r broses adsefydlu i ategu'r Polisi Amddiffyn Plant. Weithiau, gellir trafod yr euogfarn gyda'r Rheolwr Iechyd a Diogelwch neu unrhyw reolwr arall fel sy'n briodol.

Unwaith y bydd yr asesiad risg wedi'i gwblhau, hysbysir yr ymgeisydd o'r canlyniad. Bydd y canlyniad yn cynnwys y canlynol:

- Amodau y dylid cadw atynt er mwyn derbyn yr ymgeisydd fel myfyriwr
- Y penderfyniad nad yw'n briodol derbyn yr ymgeisydd i fynychu'r cwrs o ddewis. Os felly, gwneir pob ymdrech i edrych ar ganllawiau cyrsiau a gyrfaoedd addas i'r ymgeisydd. Yn ogystal, byddai unrhyw Ffioedd Cwrs a godir wrth gofrestru yn cael eu had-dalu o dan amgylchiadau arferol.

Bydd y Coleg yn wrthrychol wrth asesu'r risg o gofrestru myfyrwyr ag euogfarnau troseddol. Bydd yr asesiad yn:

- Canolbwyntio ar alluoedd, sgiliau, cymwysterau a phrofiad y myfyriwr
- Ystyried natur yr euogfarn a pherthnasedd i'r cwrs a ddewisir ac amgylchedd y Coleg
- Nodi'r risg i staff, myfyrwyr ac ymwelwyr
- Cydnabod nad yw cael euogfarn droseddol yn golygu anallu i ddysgu neu gyflawni

Gallai asesiad risg gynnwys cyflwyniad i rai mesurau diogelwch, megis:

- Goruchwyllo
- Adolygiadau Cynnydd
- Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol

Mae angen i fyfyrwyr a phrentisiaid sy'n gwneud datgeliad deimlo'n hyderus y bydd eu heuogfarnau'n aros yn gyfrinachol oni bai bod angen penodol i hysbysu unrhyw un arall, ac os felly bydd hyn ar sail 'gwir angen gwybod' yn unig. Bydd cofnodion yn cael eu cadw ynghylch pwy sydd wedi cael gwybod am y cofnod troseddol, gyda rhesymau pam, a bydd yr wybodaeth hon yn cael ei rhannu â'r ymgeisydd.

6. Cadw Cofnodion

Bydd yr holl gofnodion, a fydd yn cynnwys y Ffurflen Datgelu Cofnodion Troseddol (ffurflen GCS1), y Ffurflen Asesu Risg Euogfarn Droseddol (GCS2), y Tystlythyr gan Swyddog Prawf, Gweithiwr Troseddau Ieuenctid neu Weithiwr Cymorth priodol arall ac unrhyw Adroddiadau Cynnydd yn y dyfodol sy'n ymwneud ag amodau derbyn y Coleg, yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cabinet ffeilio dan glo yn swyddfa'r Rheolwr Gwasanaethau Dysgwyr. Bydd y cofnodion hyn yn cael eu dinistrio pan fydd y myfyriwr yn cwblhau ei gwrs neu'n gadael y Coleg, p'un bynnag yw'r cynharaf, neu ar ddiwedd y flwyddyn academiaidd pan fydd ei euogfarn wedi'i disbyddu.

7. Gweithdrefn Apelio

Mae gan yr ymgeisydd yr hawl i apelio yn erbyn y meini prawf a weithredir, bydd angen i'r ymgeisydd ddilyn Gweithdrefn Apelio Coleg Gŵyr Abertawe sydd ar gael yn y Llawlyfr Myfyrwyr a Phrentisiaid, mewnwyd y Coleg neu ar gais.

Mae'n eithaf ymarferol efallai na fydd rhai myfyrwyr yn datgelu eu heuogfarnau troseddol. Yn yr achosion hyn, pan ddaw euogfarnau i'r amlwg yn ddiweddarach, cynhelir asesiad risg, ac os yw'r asesiad risg yn penderfynu y gallai'r myfyriwr fod yn fygythiad i gymuned y Coleg, gofynnir i'r myfyriwr adael y Coleg.

Mae pob ymgeisydd sy'n gwneud cais i Goleg Gŵyr Abertawe yn cael ei hysbysu o'r angen i ddatgelu pob trosedd sydd heb ei disbyddu. Os na fydd yr ymgeisydd yn datgelu, bydd dyletswydd gofal ar bob asiantaeth i hysbysu'r Coleg am unrhyw drosedd sy'n achosi pryder am yr amgylchedd y bydd wedi'i leoli ynddo. Mae'r troseddau'n cynnwys:

- Troseddau rhywiol
- Troseddau trais
- Tanau bwriadol
- Camddefnyddio sylweddau

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.

8. Proses Reoli / Llinellau Atebolrwydd

Mae Rheolwr Diogelu a Lles Dysgwyr y Coleg yn atebol am unrhyw wybodaeth (adroddiadau llafar neu ysgrifenedig) a ddatgelir i drydydd parti gan staff y Coleg. Dylai unrhyw geisiadau i aelod o staff y Coleg fynychu achos llys neu gyfarfodydd allanol gael eu cyfeirio trwy'r Rheolwr Diogelu a Lles Dysgwyr. Yn yr un modd, dylai unrhyw geisiadau am adroddiadau ysgrifenedig neu ddiweddariadau llafar ddilyn y broses hon. Bydd adroddiadau ysgrifenedig yn cael eu cadw gan y Rheolwr Diogelu a Lles Dysgwyr at ddibenion rheoli ansawdd.

9.1 Ffurflen Datgelu Cofnod Troseddol Coleg Gŵyr Abertawe (ffurflen GCS1)

Dyddiad Heddiw:	
Enw Llawn:	
Dyddiad Geni:	
Cwrs y Gwnaed Cais Amdano:	

Bydd y manylion y gofynnir amdanynt ar y ffurflen hon yn cael eu trin yn sensitif ac yn hollol gyfrinachol.

I ddechrau, bydd y Rheolwr Gwasanaethau Dysgwyr neu'r Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Dysgwyr yn edrych ar yr wybodaeth ar y ffurflen hon, ac os ystyrir bod eich cofnod troseddol yn berthnasol i'r cwrs rydych chi wedi'i ddewis neu i chi fod ar safle'r Coleg, bydd y Rheolwr Gwasanaethau Dysgwyr a'r Rheolwr Maes Dysgu/Uwch Diwtor sy'n gyfrifol am y cwrs yn cynnal asesiad risg a fydd yn arwain at un o'r penderfyniadau canlynol:

- Gallwn ni brosesu'ch cais
- Gallwn ni ystyried eich cais ar yr amod eich bod yn cytuno i rai amodau neu gymorth
- Ni allwn ystyried eich cais ar hyn o bryd

<p>Rhowch fanylion yr holl droseddau y cawsoch eich dyfarnu'n euog ohonynt erioed, gan gynnwys dyddiadau ac unrhyw erlyniad rydych yn ei wynebu ar hyn o bryd.</p>
<p>Os ydych chi'n gwneud cais am gwrs sy'n arwain at weithio gyda phlant (dan 18), oedolion agored i niwed, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau mewn lifrai neu'r gwasanaeth iechyd, rhowch wybodaeth hefyd am unrhyw euogfarnau wedi'u disbyddu.</p>

Os ydych chi ar gyfnod prawf ar hyn o bryd, rhowch ganiatâd i ni drafod eich achos â'ch: Swyddog Prawf, Gweithiwr Cyffuriau, Gweithiwr YOS, Gweithiwr RAP

Manylion yr Unigolyn i Gysylltu ag ef:

Lleoliad:

Rhif ffôn:

Rwyf yn rhoi caniatâd i chi drafod fy achos â'm Swyddog Prawf, fy Ngweithiwr Cyffuriau, fy Ngweithiwr YOS, yn ôl yr angen.

Ie Na

Rwyf yn datgan, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, fod popeth sydd wedi'i gofnodi ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyfoes. Rwyf hefyd yn awdurdodi Coleg Gŵyr Abertawe i wneud cais i gael yr holl euogfarnau blaenorol.

Llofnodwyd:

Dyddiad:

9.2 Ffurflen Asesu Risg Cofrestru Myfyrwyr ag Euogfarnau Troseddol (ffurflen GCS2)

Dyddiad:		Enw:		YOS	Prawf
-----------------	--	-------------	--	------------	--------------

I fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag euogfarnau troseddol mae angen dull gwrthrychol, synnwyr cyffredin, sy'n ystyried y materion canlynol.

Mae myfyrwyr sydd ag euogfarnau o droseddau treisgar, rhywiol neu bornograffi blant yn destun rheolaeth lem. Yn y sefyllfaoedd hyn rhaid ceisio cyngor gan asiantaethau priodol.

Mae'n ddyletswydd ar y Coleg i amddiffyn myfyrwyr a staff a pheidio â'u rhoi mewn perygl o niwed. Gallai mesurau rheoli a roddwyd ar waith o ganlyniad i'r asesiad risg gynnwys:

- Goruchwylio
- Adroddiadau Cynnydd
- Partneriaeth ag asiantaethau allanol

Materion i'w hystyried	Tystiolaeth/Sylwadau	Mesurau rheoli i'w rhoi ar waith
Natur y drosedd <ul style="list-style-type: none"> ➤ Statws eithrio dan y Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr, dyletswyddau dan y Ddeddf Heddlu a Phlant ynghylch cyswllt 1:1 â phlant neu oedolion agored i niwed 	(Sylwch: Mae'n anghyfreithlon cyflogi rhai troseddwyr mewn rhai galwedigaethau, a dylid ystyried hyn o ran addasrwydd y dewis cwrs)	
Pryd cyflawnwyd y drosedd? <ul style="list-style-type: none"> ➤ Hyd yr amser ers cyflawni'r drosedd 		
Yr amgylchiadau dan sylw <ul style="list-style-type: none"> ➤ Gwell amgylchiadau personol yn gwneud ail-droseddu yn llai tebygol? ➤ Therapi caethiwed i gyffuriau neu alcohol? 		
Patrymau troseddu <ul style="list-style-type: none"> ➤ Oedd y drosedd yn ddigwyddiad un-tro? ➤ Oedd y drosedd yn rhan o hanes o droseddu? 		
Ymdrechion i osgoi troseddu eto <ul style="list-style-type: none"> ➤ Cynnwys y gwasanaeth prawf a chydweithredu ag ef ➤ Gradd yr edifeirwch a ddangosir ➤ Cefnogaeth gan y teulu 		
Mesurau diogelwch rhag troseddu yn y Coleg		

<ul style="list-style-type: none"> ➤ Goruchwylio ➤ Adolygiad Cynnydd Rheolaidd ➤ Cydweithio â phartneriaethau allanol 		
--	--	--

Oes dioddefwr yn y Coleg? Adweithiau posibl staff, myfyrwyr a rhieni/gwarcheidwaid i bresenoldeb cyn-droseddwr yn y Coleg <ul style="list-style-type: none"> ➤ A yw'n droseddwr proffil uchel yn y gymuned leol? 		
A fydd natur y cwrs yn cyflwyno unrhyw gyfleoedd realistig i'r myfyriwr droseddu eto?		

Trosolwg o'r Mesurau Rheoli sydd ar waith

- Mesurau rheoli yn ddigonol i gofrestru myfyriwr
- Mesurau rheoli yn annigonol i gofrestru myfyriwr
- Sicrhawyd ymgeiswyr y bydd gwybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol
- Hysbyswyd ymgeiswyr o'r angen penodol i ddatgelu gwybodaeth a phwy mae'r wybodaeth wedi cael ei datgelu iddo
- Cytunodd yr ymgeisydd i hysbysu'r Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr os yw'n trosglwyddo cyrsiau

Enw'r Myfyriwr	Llofnod	Cwrs y Gwnaed Cais Amdano
Tiwtor neu Reolwr Maes Dysgu	Llofnod	Swydd
Rheolwr Diogelu a Lles Dysgwyr		
Asiantaeth Allanol	Llofnod	Swydd
Dyddiad:		

Atgyfeiriad i Swyddog Cymorth Myfyrwyr: IE/NA

10. Yr Iaith Gymraeg

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn ymrwymedig i hyrwyddo'r iaith Gymraeg, yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.